**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cronfa Bensiwn

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 11 Mawrth 2021 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C E Lloyd (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J P Curtice | P Downing | M B Lewis |
| D G Sullivan | W G Thomas | |

**Aelod Cyfetholedig o Gyngor Castell-nedd Port Talbot**
P A Rees

**Ymgynghorwyr**

| | |
|---|---|
| N Jellema | Ymgynghorydd - Hymans Robertson |
| D Morton | Ymgynghorydd - Hymans Robertson |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Karen Cobb | Uwch-gyfrifydd |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Jeffrey Dong | Dirprwy Brif Swyddog Cyllid / Dirprwy Swyddog Adran 151 |
| Carolyn Isaac | Cyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Dim.

---

**13 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

Y Cynghorydd J P Curtice - yr agenda yn ei chyfanrwydd - aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

Y Cynghorydd P Downing - yr agenda yn ei chyfanrwydd - mae fy mrawd yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

Y Cynghorydd M B Lewis - yr agenda yn ei chyfanrwydd - aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

Y Cynghorydd C E Lloyd – yr agenda yn ei chyfanrwydd – aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

Y Cynghorydd P Rees - yr agenda yn ei chyfanrwydd - mae fy merch-yng-nghyfraith yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

Y Cynghorydd D G Sullivan - yr agenda yn ei chyfanrwydd - mae fy merch-yng-nghyfraith yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac rwy'n derbyn pensiwn a weinyddir gan gyn-Gyngor Dyfed - personol.

Y Cynghorydd W G Thomas - yr agenda yn ei chyfanrwydd - aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

**Arsyllwr:**

I Guy - Cadeirydd y Bwrdd Pensiwn Lleol - yr agenda yn ei chyfanrwydd - aelod o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

**Swyddogion:**

K Cobb – yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

J Dong – yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

C Isaac – yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

J Parkhouse – yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

## 14 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Gronfa Bensiwn a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2020 fel cofnod cywir.

## 15 Cynllun Archwilio Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe 2021.

Cyflwynodd Jason Garcia, Swyddfa Archwilio Cymru (SAC), Gynllun Archwilio Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe 2021.

Amlinellwyd mai diben y cynllun oedd nodi'r gwaith arfaethedig gan SAC, pryd y byddai'n cael ei wneud, faint y byddai'n ei gostio a phwy fyddai'n gwneud y gwaith.

Roedd yr adroddiad yn manylu ar y canlynol: -

- Effaith barhaus COVID-19, yr ansicrwydd wrth symud ymlaen a sut roedd SAC yn bwriadu ymgymryd â'u gwaith.
- Archwilio cyfrifon y Gronfa Bensiwn.
- Risgiau'r archwiliad ariannol, gan gynnwys risgiau sylweddol; effaith COVID-19; Dyfarniad McCloud; buddsoddiadau ecwiti preifat; a Phartneriaeth Pensiwn Cymru.

- swyddogaethau Archwilio Statudol.
- Ffi, tîm archwilio ac amserlen.

Mynegodd y Pwyllgor ddiolch bod y ffi archwilio wedi aros yr un peth â 2020/21.

Diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolydd SAC am ddod i'r cyfarfod a chyflwyno'r adroddiad.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

## 16 Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe Datganiad Strategaeth Ariannu Drafft (Diwygiadau Hyblygrwydd Cyflogwr).

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn ceisio sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Llywodraeth Leol.

Amlinellwyd bod Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe, yn unol â Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, wedi cynhyrchu a chymeradwyo datganiad strategaeth ariannu, mewn ymgynghoriad â chyflogwyr ei gynllun, yr actiwari penodedig a'r ymgynghorwyr ym mis Mawrth 2020.

Manylwyd hefyd ar brif ddiben y Datganiad Strategaeth Ariannu, canllawiau'r Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) a chanllawiau'r Bwrdd Cynghori ar y Cynllun. Darparwyd Datganiad drafft y Strategaeth Ariannu – Mawrth 2021 yn Atodiad 1.

Trafododd y pwyllgor y canlynol: -

- Sicrhau yn erbyn y golled bosib o ganlyniad i gyflogwyr trydydd parti’n dod yn rhan o'r Gronfa ond yn methu anrhydeddu eu hymrwymiadau, yr opsiynau sydd ar gael wrth ddod yn rhan ohoni megis bond yn cael ei dalu i yswirio yn erbyn colled a gwarantau noddi trosgynnol a ddarperir gan Gynghorau Abertawe neu Gastell-nedd Port Talbot;
- Sicrhau nad yw'r Gronfa, ei haelodau a'r trethdalwr yn dioddef unrhyw golledion o ganlyniad i drydydd partïon yn mynd i’r wal;
- Y broses ymgynghori;
- Effaith bosib achos Goodwin.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r diwygiadau i'r datganiad strategaeth ariannu, yn amodol ar ymgynghoriad.

## 17 Adroddiad am Doriadau. (Er Gwybodaeth)

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn darparu manylion unrhyw doriadau a gafwyd yn y cyfnod hwn yn unol â'r polisi Adrodd am Doriadau.

Darparodd Atodiad A fanylion y toriadau a gafwyd ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor y Gronfa Bensiwn ym mis Tachwedd 2020. Amlygwyd manylion y toriadau a'r camau gweithredu a gymerwyd gan reolwyr.

## 18 Cynllun Busnes Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe.

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn darparu fframwaith gweithredol ar gyfer rhaglen waith y Gronfa Bensiwn ar gyfer 2021/22.

Amlinellwyd bod y Gronfa Bensiwn, yn unol ag arfer gorau, wedi cynhyrchu cynllun busnes i lywio’i rhaglen waith ar gyfer y cyfnod 12 mis sydd i ddod. Darparwyd y Cynllun Busnes ar gyfer 2021/22 yn Atodiad 1.

Trafododd y pwyllgor yr wybodaeth a gynhwysir o fewn y cynllun fel a ganlyn: -

- Y diwygiad i gydnabod cynrychiolydd aelodau'r cynllun ar CBLl;
- Parhau i esblygu'r rhaglen lleihau carbon o fewn y portffolio ecwiti.

**Penderfynwyd** cymeradwyo Cynllun Busnes Blynyddol Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe a chyllideb 2021/22.

## 19 Hyfforddiant Ymddiriedolwyr.

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn ceisio penderfynu ar rhaglen hyfforddiant flynyddol ar gyfer Pwyllgor y Gronfa Bensiwn, aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol a swyddogion y Gronfa Bensiwn.

Amlinellwyd y cefndir a'r cynnydd a wnaed o ran anghenion hyfforddi a gwybodaeth a gafwyd, gan gynnwys Côd Ymarfer CIPFA a gofynion gwybodaeth a dealltwriaeth y Rheolydd Pensiynau a Datganiad Polisi'r Gronfa Bensiwn.

Darparwyd manylion Asesiad Gwybodaeth Cenedlaethol y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (NKA) a lansiwyd gan Hymans yn 2020, yr hyfforddiant Ymddiriedolwyr a gynhaliwyd yn 2020/21 a'r rhaglen hyfforddi arfaethedig yn 2021/22.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r asesiad a'r cynllun hyfforddiant amlinellol ym mharagraffau 3.7, 3.8 a 3.9 ac y dylai cyfleoedd pellach a nodir yn ystod y flwyddyn gael eu dirprwyo i'r Dirprwy Swyddog Adran 151 i'w cymeradwyo.

## 20 Rheoliadau Taliadau Ymadael - Diweddariad. (Er Gwybodaeth)

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn diweddaru Pwyllgor y Gronfa Bensiwn ar y Rheoliadau Cap Ymadael gwerth £95k a ddatgymhwyswyd ar 12 Chwefror 2021.

Amlinellwyd bod Trysorlys EM wedi cyhoeddi Cyfarwyddiadau Taliad Ymadael 2021 a oedd yn datgymhwyso rheoliadau 3.9 a 12 o Reoliadau Cyfyngu ar Daliadau Ymadael y Sector Cyhoeddus 2020. Roedd hyn yn golygu nad oedd y cap ymadael

yn berthnasol i daliadau ymadael a oedd yn digwydd ar neu ar ôl 12 Chwefror 2021. Roedd y Gymdeithas Llywodraeth Leol wedi cyhoeddi nodiadau arweiniol ar gyfer Awdurdodau Gweinyddu a ddarparwyd yn Atodiad 1. Nodwyd, er bod y Cap Ymadael ar ei ffurf wreiddiol wedi'i ddatgymhwyso, fod y Llywodraeth wedi ymrwymo i gyflwyno dull capio amgen i daliadau ymadael y sector cyhoeddus 'ar gyflymder'.

Ychwanegwyd nad oedd unrhyw ymadawiadau’n torri'r cap rhwng 4 Tachwedd a 12 Chwefror ar gyfer Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe. Yn ogystal â hyn, adroddwyd bod Y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) wedi stopio ymgynghoriad yn gofyn am farn ar gynigion i ddiwygio telerau taliadau ymadael pellach ac roedd yr ymgynghoriad hwn yn dal i fynd rhagddo.

## 21 Gwahardd Y Cyhoedd.

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhelliad/argymhellion yr adroddiad ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitem(au) f/busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor brawf budd y cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle roedd prawf budd y cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 22 Diweddariad am Bartneriaeth Pensiwn Cymru. (Er Gwybodaeth)

Darparodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn rhoi'r diweddaraf i'r Pwyllgor am gynnydd rhannu asedau Partneriaeth Pensiwn Cymru).

Roedd Atodiad 1 yn darparu'r adroddiad cynnydd a diweddaru a ddarparwyd gan weithredwr y Cynllun Contractiol Awdurdodedig (CCA), Link Asset Services. Roedd Atodiad 2 yn darparu llinell amser Marchnadoedd Preifat WPP.

## 23 Adroddiad yr Ymgynghorydd Buddsoddi.

Darparodd Nick Jellema, Ymgynghorwr Buddsoddi, adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn cyflwyno Adroddiad Monitro Buddsoddiadau Chwarter 4 2020/21.

Nodwyd cynnwys yr adroddiad gan y pwyllgor a gofynnwyd cwestiynau amrywiol, ac fe'u hatebwyd yn briodol. Diolchwyd i'r Ymgynghorwyr Buddsoddi am yr adroddiad.

**24 Crynodeb Buddsoddi. (Er Gwybodaeth)**

Darparodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151 adroddiad "er gwybodaeth", a oedd yn cyflwyno'r perfformiad buddsoddi ar gyfer y chwarter, y flwyddyn a'r 3 blynedd a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2020 ynghyd â diweddariad cyllid ar 31/12/20 a ddangosodd y lefel ariannu ar 99.6%

Atodwyd crynodebau buddsoddi chwarterol y Gronfa Bensiwn ar gyfer y chwarter, y flwyddyn a'r 3 blynedd a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2020 yn Atodiad 1.

**25 Cyflwyniad(au) Rheolwr y Gronfa:**

Rhoddwyd cyflwyniad gan Aidan Quinn a Taran Paik o Russell Investments.

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau am gynnwys y cyflwyniad llafar ac atebwyd yn briodol iddynt.

Nodwyd cynnwys y cyflwyniad a diolchodd y Cadeirydd i Reolwyr y Gronfa am ddarparu'r cyflwyniad.

Daeth y cyfarfod I ben am 12.00 pm

**Cadeirydd**